Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, “Gorffennwyd.” Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd.”
(Ioan 19:30)

Dyma un o saith ymadrodd ein Harglwydd ar y groes. Dim ond un gair sydd yn yr ymadrodd hwn, ond mae wedi dod â maddeuant a bywyd tragwyddol i filoedd o bechaduriaid anghenus. Gall llawer a fu mewn tywyllwch dyrys dystio***: “daeth gwawr o’r gair ‘Gorffennwyd’”*** (David Jones).

Gorffennwyd – Gair busnes

Mae’n debyg bod y gair Groeg ‘Tetelestai’ yn air cyffredin bob dydd yn y farchnad ac yn y porthladd yn nyddiau Iesu. Dyma’r gair fyddai’n cael ei ysgrifennu ar draws bil i ddangos ei fod wedi ei dalu a’i glirio a’i orffen, fel y byddwn ni’n ysgrifennu ‘Talwyd’ heddiw. Mae’r ystyr yma yn rhoi darlun gwych o’r hyn wnaeth yr Arglwydd Iesu ar groes Calfaria. Roedd yn clirio biliau a dyledion pechod. Mae’n amlwg mai nid ei ddyled ei hun oedd angen ei chlirio, ond ei fod yn dioddef fel Oen Duw i dynnu ymaith bechodau’r byd.

Hwn yw’r Oen, ar ben Calfaria
aeth i’r lladdfa yn ein lle,
swm ein dyled fawr a dalodd
ac fe groesodd filiau’r ne’ (Dafydd Jones)

Bil yn y nef

Mae’r syniad o filiau yn gyfarwydd i bob un ohonom ysywaeth. Rhaid, yn gyntaf, archwilio bil i weld ai ni a’i piau. Yna byddwn yn edrych ar y cyfanswm dyledus, ac ar ôl y sioc, byddwn yn edrych ar yr eitemau sydd wedi eu rhestru ynddo. Mae hyn yn ein hatgoffa fod gennym fil yn y nef yn ein henw. Mae pob un ohonom wedi derbyn gwasanaeth gan Dduw. Ef a’n creodd ac Ef sy’n ein cynnal bob eiliad o’n hoes. Mae hynny’n golygu ei fod yn haeddu ein cariad llwyr, ac mae’n disgwyl i ni garu ein cymydog fel ni’n hunain hefyd.

Ar ben hyn, daw’n pechod. Mae gwrthryfel, anufudd-dod ac anniolchgarwch i Dduw yn eitemau ar ein bil. Yna mae’r gweithredoedd na ddylsem fod wedi eu gwneud, y meddyliau drwg, a’r geiriau pechadurus a dinistriol. Dim ond i ni ystyried pechod un diwrnod o ddifrif, bydd yn ddigon i’n digalonni, heb sôn am holl ddyddiau’n hoes?

Sut mae talu?

Rhaid talu biliau. Sut mae clirio dyled ein pechod er mwyn cael ein derbyn gan Dduw? Mae tri dewis yn dod i'm meddwl:

Ei dalu ein hunain trwy ymroi i fyw'n dda

Mae hyn yn golygu ceisio byw yn well, bod yn fwy caredig ac yn fwy crefyddol. Mae hyn yn debyg i ddefnyddio cerdyn credyd, sef talu ychydig o fis i fis. Gwaetha'r modd, wrth wneud hyn, mae'r credyd yn cynyddu. Wrth i ni geisio byw'n well, rŷn ni'n dal i bechu. Felly, dydy'r ychydig o ddaioni ddim yn cyffwrdd y ddyled, mewn gwirionedd.

Anwybyddu'r bil

Mae nifer o bobl yn osgoi talu biliau. Maent yn eu taflu i'r bin, yn newid eu henw, yn symud o gwmpas y wlad, neu, hyd yn oed, yn symud i wlad arall. Mae llawer heddiw yn dweud nad yw pechod yn bechod. 'Mae'r Beibl yn hen ffasiwn', meddant, 'ac mae angen rhyddid a meddwl agored erbyn hyn. Dydy Duw ddim yn cosbi pechod, beth bynnag, nac di?'

Cael rhywun arall i'w dalu

Dyma neges yr Efengyl a'r adnod yma. Dyna pam aeth Iesu i'r groes, sef i dalu dyled pechaduriaid fel ni.

Does dim posib clirio'n dyledion gyda'r ddau ddewis cyntaf. Does dim dianc rhag cyfiawnder Duw yn y pendraw. Dyna pam fod y groes yn hanfodol er mwyn clirio dyledion pechod. Dyma gyflawnodd Crist ar y groes wrth weiddi'n fuddugol y gair **'Gorffennwyd'.**

Derbynneb

Bob tro byddwn yn prynu rhywbeth ac yn talu amdano, cawn dderbynneb. Mae'r papur yma'n brawf bod y taliad wedi'i wneud ac yn sicrhau nad oes raid talu eto. Un o'm hunllefau mwyaf yw clywed larwm yn canu wrth imi gerdded allan o siop fel petawn heb dalu am y nwyddau. Y prawf fy mod wedi talu fyddai'r dderbynneb, ac rwy'n ceisio gwneud yn siŵr o'i gadw'n ddiogel bob amser.

Ein derbynneb ni am daliad Crist ar y groes yw'r atgyfodiad. Dyw Iesu ddim ar y groes nawr, dyw e ddim yn dal i ddioddef, mae wedi marw ac atgyfodi'r trydydd dydd. Mae hynny'n gadarnhad hanesyddol fod y taliad digonol wedi ei wneud dros bechodau pob un sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist. Heb yr atgyfodiad, does dim sicrwydd o faddeuant pechodau: **"Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd"** (1 Cor. 15:17). Gan fod Crist wedi ei gyfodi, gallwn gyhoeddi maddeuant llawn!